**Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i'r adroddiad gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau sy'n dwyn y teitl "Yr Ardoll Brentisiaethau: Flwyddyn yn ddiweddarach"**

---

**Trosolwg o'r Polisi Sgiliau**

Ym mis Chwefror 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei 'Pholisi Sgiliau Prentisiaethau'[1]. Mae'r polisi wedi'i fwriadu i alinio prentisiaethau ag anghenion economi Cymru fel bod y system sgiliau'n ymateb i newidiadau ym myd diwydiant, yn ogystal â buddsoddi mewn meysydd a fydd yn dwyn adenillion economaidd a chymdeithasol gwell.

Yn ystod mis Medi 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Genedlaethol, 'Ffyniant i Bawb'[2], sef asgwrn cefn yr holl waith datblygu polisïau yng Nghymru. Mae'r strategaeth yn nodi sgiliau fel un o'r blaenoriaethau ac ar ben hynny mae'r blaenoriaethau eraill yn dibynnu ar yr agenda sgiliau hefyd – y blynyddoedd cynnar, tai, gofal cymdeithasol, iechyd meddwl a chyflogadwyedd.

Ym mis Rhagfyr 2017, i roi cymorth i gyflawni 'Ffyniant i Bawb', cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Gweithredu ar yr Economi[3]. Mae'n cynnwys camau gweithredu allweddol mewn perthynas â sgiliau, gan gynnwys: alinio rhanbarthau economaidd â'r rhai a ddefnyddir ar gyfer olion traed eraill gan gynnwys Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol; a chyflwyno system gynllunio strategol ar gyfer darpariaeth addysg a sgiliau ar draws addysg ôl-16.

Mae'r Cynllun Cyflogadwyedd, a gyhoeddwyd ar 20 Mawrth, yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur, y rhai sy'n anweithgar yn economaidd a'r rhai sydd mewn perygl o golli eu swydd, i gael gwaith[4]. Mae 'Cymru'n Gweithio', rhaglen gyflogadwyedd newydd Llywodraeth Cymru, yn cael ei chyflwyno a'i nod yw symleiddio cymorth gyda chyflogadwyedd i unigolion sy'n ddi-waith ac yn anweithgar yn economaidd.

## Caiff ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad eu nodi isod:

**Argymhelliad 1:** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i adolygu aelodaeth Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru newydd a sicrhau bod llwybrau addas i bob cyflogwr ddylanwadu ar waith y Bwrdd hwn. I'r perwyl hwn, dylai'r Bwrdd weithio'n dryloyw a sicrhau bod ei bapurau a chanfyddiadau yn cael eu cyhoeddi a'u rhannu mewn modd amserol a phriodol.

**Ymateb: Derbyn**

---

[1] http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/apprenticeships/apprenticeships-skills-policy-plan/?lang=cy
[2] http://gov.wales/about/programme-for-government/?lang=cy
[3] http://gov.wales/docs/det/publications/171213-economic-action-plan-cy.pdf
[4] http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/employability-plan-for-wales/?lang=cy

Sefydlwyd Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru ym mis Mawrth 2018. Bwrdd annibynnol dan arweiniad cyflogwyr ydyw a fydd yn rhoi cyngor ac argymhellion i Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru a Gweinidogion Cymru ar faterion sy'n ymwneud â fframweithiau prentisiaethau yng Nghymru. Bydd y Bwrdd yn cyhoeddi ei ganfyddiadau allweddol yn rheolaidd, gan gynnwys ymchwil annibynnol i'r dull newydd o ymdrin â Safonau Prentisiaethau yn Lloegr yn 2019; ac ymgynghori ar gynlluniau i ddiweddaru'r saernïaeth ar gyfer prentisiaethau drwy fatrics prentisiaethau. Bydd Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru yn gweithredu am gyfnod o 18 mis i ddechrau, a bydd ei rôl a'i aelodaeth yn y dyfodol yn cael eu hadolygu yn hydref 2019.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i adeiladu ar y momentwm a grëwyd gan yr Ardoll ac annog mwy o ymgysylltu rhwng cyflogwyr a phobl ifanc. Dylai gwaith ymgysylltu geisio hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth ar draws fframweithiau, gan gynnwys drwy'r Gweithgor Prentisiaethau Cynhwysol newydd, a ddylai gyhoeddi ei gynllun gweithredu a'i rannu â'r Pwyllgor hwn o fewn 12 mis i'r cyfarfod cyntaf.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn datblygu rhaglen brentisiaethau gynhwysol sy'n rhoi anogaeth i ymgysylltu ar draws grwpiau gwarchodedig. I'r perwyl hwn, drwy Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, rydym wedi prynu gwasanaeth Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, y mae ei rôl yn cynnwys gweithio i hybu cydraddoldeb i fenywod yn y gweithle a chynorthwyo darparwyr i herio stereoteipiau o ran y rhywiau mewn rhai sectorau ym myd diwydiant. Mae'r Hyrwyddwr wedi mapio arfer da o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws y rhwydwaith darparwyr prentisiaethau. Mae darparwyr prentisiaethau wedi cynnal hunanasesiadau i bennu cryfderau a meysydd i'w gwella ac maent wedi paratoi cynllun gwaith sy'n nodi strategaethau, gweithgareddau, hyfforddiant ac adnoddau sy'n ofynnol i ysgogi gwelliannau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi caffael pecyn cymorth Cydraddoldeb cynhwysfawr i gefnogi darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr ac mae hwn yn cynnwys modiwlau penodol ar hunaniaeth o ran rhywedd, stereoteipio a rhagfarn ddiarwybod. Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi bwrw ymlaen â chamau gweithredu i gynyddu nifer y bobl anabl a'r grwpiau gwarchodedig eraill sy'n gwneud prentisiaeth. Gan weithio gyda Remploy a'r rhwydwaith darparwyr prentisiaethau, rydym yn amcanu at greu gwasanaeth broceru newydd i baru'r rhai sy'n cyfranogi yn y rhaglen Iechyd ar Waith â chyfleoedd prentisiaeth. Rydym hefyd wedi cyhoeddi pecyn cymorth cydraddoldeb cynhwysfawr i gefnogi ein darparwyr prentisiaethau, gan gynnwys modiwlau penodol ar hunaniaeth o ran rhywedd, stereoteipiau a rhagfarn ddiarwybod.

Mae gwaith wedi dechrau ar y Cynllun Gweithredu ar Anabledd newydd ar gyfer Prentisiaethau. Datblygwyd hwn mewn partneriaeth gyda sefydliadau pobl anabl a chynrychiolwyr eraill y sector i adnabod camau gweithredu a fydd yn dileu'r rhwystrau sy'n atal pobl anabl rhag cael mynediad at brentisiaethau. Bydd y Cynllun

yn canolbwyntio ar gamau gweithredu ymarferol i sicrhau bod pecynnau cymorth ar gael i unigolion, cyflogwyr a'n darparwyr prentisiaethau. Bydd hefyd yn ystyried sut y gallwn wneud addasiadau rhesymol er mwyn gwneud prentisiaethau'n fwy hyblyg.

Rydym yn bwriadu lansio'r Cynllun Gweithredu ar 3 Rhagfyr, sef Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl. Bydd y lansiad yn cael ei gynnal mewn gweithdy yr ydym yn ei gynnal ar y cyd â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i gyflogwyr. Nod y digwyddiad, sy'n dwyn y teitl "Cynyddu Amrywiaeth mewn Prentisiaethau – y gronfa dalent ddigyffwrdd" yw gwerthu manteision bod â gweithlu amrywiol a dileu unrhyw ragdybiaethau sy'n bodoli o bosibl.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU a gwledydd datganoledig eraill i symleiddio'r broses weinyddol i gyflogwyr ac yn canfod nodweddion cyffredin rhwng dulliau'r DU a gwledydd datganoledig.**

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae trefniadau ffurfiol presennol yn cynnwys Grŵp Llywodraethu'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, sy'n cwrdd yn fisol. Mae Grŵp Llywodraethu'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn gweithio gyda'r Sefydliad Prentisiaethau i sicrhau bod y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn dal i fod ar gael yn rhwydd i'r cyflogwyr a'r cyrff dyfarnu hynny sy'n gweithio yn Lloegr ac sy'n dymuno defnyddio'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol i danategu eu cynnyrch. Mae'r aelodau'n cynnwys swyddogion o wledydd datganoledig a chynrychiolwyr Skills Development Scotland. Mae'r cylch gwaith yn cynnwys cynnal safonau galwedigaethol ledled y DU a cheisio mwy o aliniad rhwng y tair gwlad Geltaidd a Lloegr o ran Safonau sy'n tanategu Fframweithiau Prentisiaeth er mwyn lleihau dryswch ac anghysonderau trawsffiniol i'r eithaf ar gyfer cyflogwyr a dysgwyr.

Mae Grŵp y Pedair Gwlad o uwch swyddogion wedi cwrdd bob hyn a hyn ers 2016, i drafod materion cyffredin o ran addysg broffesiynol a thechnegol. Ei ddiben canolog i ddechrau oedd paratoi'r ffordd ar gyfer cyfarfodydd rhwng Gweinidogion Sgiliau o bob un o bedair gwlad y DU. Mae'r cylch gwaith yn cynnwys darparu fforwm i adnabod a thrafod materion strategol o bwys ar lefel y DU gyfan lle byddai dull gwybodus a chydweithredol o fynd ar drywydd Addysg Broffesiynol a Thechnegol yn cefnogi budd pennaf dysgwyr, cyflogwyr a chymunedau lleol ar draws y pedair gwlad. Mynychir y Grŵp gan Gyfarwyddwr Grŵp SHELL.

Mae Grŵp Prentisiaethau'r Pedair Gwlad o swyddogion polisi prentisiaethau'n cwrdd yn dymhorol i bwyso a mesur datblygiadau cyfredol a rhannu dulliau gweithredu ar gyfer polisi, gan gynnwys systemau ar gyfer datblygu prentisiaethau, dulliau o integreiddio rhaglenni ymgysylltu ac ennyn ymgysylltiad pobl ifanc. Cyfarfu'r grŵp ddiwethaf yn Belfast ym mis Mai. Cynhelir y cyfarfod nesaf fis Tachwedd yma yng Nghaerdydd.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried yr argymhellion a wneir yn "The Great Training Robbery", a gweithredu ar y rhai sy'n gymwys yng nghyd-destun Cymru.

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r adroddiad "The Great Training Robbery" yn argymell rhoi pwyslais ar ansawdd yn hytrach na maint, sy'n cyd-fynd i raddau helaeth â'n dull ni o weithio yng Nghymru. Er bod gennym ffigwr targed i ddarparu isafswm o 100,000 o brentisiaethau erbyn 2021 mae ein polisi'n canolbwyntio ar sicrhau bod y cyfleoedd cywir yn cael eu creu yn y mannau cywir (o ran lefelau yn y fframwaith ac yn ddaearyddol) fel bod unigolion, busnesau a'r economi'n gallu ffynnu. Er mwyn llywio'r broses o ddatblygu a darparu prentisiaethau ar lefelau uwch rydym yn gynyddol yn buddsoddi mewn meysydd technoleg a sectorau sy'n flaenoriaeth i fynd i'r afael â phrinder, anghenion a bylchau o ran sgiliau. Er ein bod yn nodi nad rhoi ffocws ar niferoedd yw'r argymhelliad, er gwybodaeth, cyflawnwyd ffigwr o 24,000 o ran rhaglenni prentisiaeth a ddechreuwyd yn ystod 2016/17 a ffigwr dros dro o 16,000 yn hanner cyntaf 2017/18 sy'n golygu ein bod wedi mynd gryn dipyn o'r ffordd tuag at gyrraedd ein targed.

Nid yw agweddau eraill a amlygwyd yn yr adroddiad yn berthnasol i Gymru megis y system dalebau a chyd-fuddsoddi gan gyflogwyr mewn costau hyfforddi.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi gwybodaeth lefel uchel am ba gymorth ar gyfer dysgu yn y gweithlu sydd ar gael i gyflogwyr yng Nghymru, gan gynnwys prentisiaethau a hyfforddiant ehangach yn y gweithle, ac i rannu'r wybodaeth hon drwy Fwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru a chyrff neu sefydliadau sy'n cynrychioli cyflogwyr.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym eisoes yn darparu gwybodaeth lefel uchel am brentisiaethau drwy'r Porth Sgiliau ar gyfer Busnes i gefnogi datblygiad y gweithlu. Mae'r Porth Sgiliau ar gyfer Busnes yn bwynt mynediad sydd wedi hen ennill ei blwyf i fusnesau o bob maint gael gwybodaeth ac arweiniad ynghylch cymorth gyda sgiliau a chyflogaeth ac mae'n darparu llwyfan ar gyfer gwasanaethau datblygu sgiliau a chymorth busnes mewn un lle. Mae'n hyrwyddo pwysigrwydd hyfforddiant, datblygiad sgiliau a chymorth gyda chyflogadwyedd gan roi adrannau hunangymorth a chyfleusterau cyfeirio i'r defnyddiwr, gan ei sefydlu ei hun fel y lle i fusnesau fynd i geisio datrysiadau i'w hanghenion.

Mae'r Porth Sgiliau ar gyfer Busnes yn cynnwys amrywiaeth eang o wybodaeth am raglenni cymorth sgiliau a chyflogadwyedd a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (gan gynnwys Prentisiaethau) sydd wedi'u categoreiddio er mwyn ei gwneud yn bosibl cyfeirio'n glir at y ddarpariaeth briodol a fyddai'n ateb gofynion busnes ac adnabod y ddarpariaeth honno'n glir.
https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy

Mae'r Porth Sgiliau ar gyfer Busnes yn cynnwys hunanasesiad sgiliau rhyngweithiol sy'n rhoi trosolwg o anghenion sgiliau uniongyrchol y busnes ac yn creu adroddiad pwrpasol gyda dolenni i raglenni cymorth. Ategir hyn gan linell gymorth dros y ffôn sy'n cynnig opsiwn galw'n ôl ac a all gyfeirio busnesau ymhellach at yr hyn sydd ar gael o ran cymorth priodol a ariennir. Gellir cael mynediad at wasanaeth cymorth ymgynghorydd wyneb yn wyneb drwy'r llinell gymorth neu drwy hunanatgyfeiriad sydd hefyd yn gallu cynorthwyo busnesau gyda'u gofynion o ran sgiliau a hyfforddiant.

Mae'r Porth Sgiliau ar gyfer Busnes yn darparu datrysiad siop un stop effeithiol ar gyfer sgiliau, hyfforddiant a datblygu'r gweithlu. Mae ei gynnwys yn ymwneud â sgiliau, hyfforddiant a materion cyflogadwyedd megis mynediad at gwrs sgiliau ar-lein ac Adran wedi'i neilltuo i Wybodaeth am y Farchnad Lafur.

Mae Arweinlyfr Cyfathrebu'r Ardoll Brentisiaethau ar gael ar blatfform y Porth Sgiliau ar gyfer Busnes:
https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/sites/skillsgateway/files/documents/Arweinlyfr%20Prentisiaethau%20i%20Gyflogwyr.pdf

Wrth i Fwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru ennill ei blwyf yn iawn byddwn yn gweithio gyda'r Bwrdd i sicrhau bod gwybodaeth am ymgynghori a gweithgarwch arall ar gael yn agored. Bydd y Bwrdd yn cyhoeddi ei ganfyddiadau allweddol yn rheolaidd, gan gynnwys ymchwil annibynnol i'r dull newydd o ymdrin â Safonau Prentisiaeth yn Lloegr yn 2019; ac ymgynghori ar gynlluniau i ddiweddaru'r saernïaeth ar gyfer prentisiaethau drwy fatrics prentisiaethau.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru fod yn glir ar yr effaith y bydd ei ffocws ar brentisiaethau lefel uwch yn ei chael ar brentisiaethau lefel is. Lle y bo modd, dylid lliniaru'r effaith a lleihau nifer y prentisiaethau lefel is ar raddfa sy'n unol â darpariaeth trefniadau hyfforddiant amgen.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae gennym gyfrifoldeb i dorri'r cylch sgiliau isel, cyflog isel a gwella cyfleoedd bywyd pobl. I lawer o bobl – yn enwedig y rhai â chymwysterau isel – nid yw gwaith â chyflog isel yn darparu cam ymlaen at swydd â chyflog uwch, ac yn hytrach mae pobl yn cael eu dal mewn cyflogaeth â chyflog isel. Mae ein ffocws canolog ar ddatblygiad i hyfforddiant lefel uwch. Y rhai difreintiedig sydd fwyaf ar eu hennill o ganlyniad i

ddysgu sgiliau newydd sy'n arwain at gyfleoedd gyrfa ac mae'r rhaglen brentisiaethau'n darparu'r ddau drwy'r canlynol:

- y camau yr ydym wedi'u cymryd i sicrhau nad pen draw ond dechrau'r daith yw prentisiaethau lefel is;
- cyhoeddi pecyn cymorth cydraddoldeb cynhwysfawr i gefnogi darparwyr a chyflogwyr a hwnnw'n cynnwys modiwlau penodol ar hunaniaeth o ran rhywedd, stereoteipio a rhagfarn ddiarwybod;
- gweithio i gynyddu nifer y bobl anabl sy'n gwneud prentisiaeth, er enghraifft, Remploy yn paru'r rhai sy'n cyfranogi yn y rhaglen Dewis Gwaith â phrentisiaethau;
- datblygu cynllun gweithredu gyda grwpiau â buddiant i gefnogi pobl anabl (fe'i cyhoeddir yr hydref hwn).

Mae gennym systemau a phrosesau i fonitro a gwerthuso effaith y cyfyngiadau Prentisiaeth Sylfaen (lefel 2) a sefydlwyd yn 2016. Ym mis Gorffennaf 2018, cynhaliwyd symposiwm ar y cyd gyda Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i adnabod ac ystyried datrysiadau posibl i gamu ymlaen at swydd â chyflog uwch mewn sectorau â chyflog isel ac yn yr economi sylfaenol. Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn y broses o baratoi adroddiad ar y symposiwm a llunio argymhellion yn seiliedig ar hyn. Rydym yn dal i adolygu'r ddarpariaeth Prentisiaethau Sylfaen, yn enwedig mewn perthynas â sectorau â chyflog isel, ac rydym yn dadansoddi'r ffordd fwyaf priodol o barhau i gefnogi sectorau o'r fath.

**Goblygiadau Ariannol:** Bydd goblygiadau ariannol yn cael eu hystyried gan ddibynnu ar yr argymhellion o Adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod darpariaeth yn cael ei gwneud i bobl i gael prentisiaethau a fydd yn eu galluogi i gwrdd â'r heriau a ddaw yn sgil awtomeiddio fel rhan o'r pedwerydd chwyldro diwydiannol.

**Ymateb: Derbyn**

Yng Nghymru rydym yn blaenoriaethu buddsoddiadau mewn prentisiaethau drwy roi pwyslais ar ehangu Prentisiaethau Uwch mewn STEM a phynciau technegol ar lefelau 4 a 5 (sy'n gyfwerth â HNC/D), i greu'r genhedlaeth nesaf o weithwyr proffesiynol i lywio arferion arloesol, creu cynnyrch newydd, a chodi lefelau cynhyrchiant. Mae Prentisiaethau Uwch yn helpu i gau'r bwlch o ran sgiliau technegol a hybu cynhyrchiant drwy greu llwybrau newydd i swyddi technegol â sgiliau canolig ar gyfer pobl ifanc (lle mae'r prinderau sgiliau mwyaf o hyd) neu lle'r ydym methu yn erbyn gwledydd sydd mewn cystadleuaeth â ni. Mae ehangu'r ddarpariaeth Prentisiaethau Uwch yn ymateb i'r argymhelliad yn Adolygiad Diamond[5] ynglŷn ag ystod well o gymwysterau addysg uwch cylch byr sydd â ffocws ar waith. Yn 2016/17, roedd 11,130 o brentisiaid yn gwneud Prentisiaeth Uwch – a hwythau'n rhoi cyfrif am 24 y cant o gyfanswm y prentisiaid mewn lleoliadau dysgu.

[5] https://beta.llyw.cymru/adolygiad-o-gyllido-addysg-uwch-threfniadau-cyllido-myfyrwyr-adroddiad-terfynol?_ga=2.187379886.767195968.1538664120-1128850961.1538664120

O fis Medi yma, bydd Prentisiaethau Gradd Ddigidol/TGCh (ar lefel 6) ar gael ac yn fuan wedi hynny, byddwn yn cynnig Prentisiaethau Gradd mewn Peirianneg. Byddwn yn parhau â'r gwaith yr ydym wedi'i ddechrau gyda chyflogwyr (mewn sectorau allweddol) i integreiddio Prentisiaethau â'u cynlluniau gweithlu, er mwyn cefnogi'r rhai sydd eisoes mewn gwaith a'r rhai sy'n newydd i'r farchnad lafur. Mae'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn ystyried gofynion sgiliau rhanbarthol sy'n deillio o brosiectau seilwaith a buddsoddi pwysig, y mae gan nifer ohonynt sylfaen gref mewn meysydd pwnc STEM.

Mae Sgiliau Llythrennedd Digidol wedi'u cynnwys yn yr elfen Sgiliau Hanfodol o'r holl fframweithiau prentisiaethau.

**Goblygiadau Ariannol:** Cytunwyd ar gyllideb gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Tuag £20m yw'r amcangyfrifon cychwynnol ar gyfer darparu prentisiaethau gradd, a hynny am dair blynedd gyntaf eu gweithrediad.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu'r ganran o bobl ifanc sy'n mynd i'r gweithlu i ddilyn prentisiaethau, a faint o brentisiaethau a ddefnyddir i uwchsgilio staff presennol.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn gwerthuso niferoedd y newydd-ddyfodiaid a niferoedd y dysgwyr sy'n cael eu huwchsgilio. Nid oes targed gennym ar gyfer newydd-ddyfodiaid ar hyn o bryd, ond mae gennym raglen i roi anogaeth ar gyfer mwy o newydd-ddyfodiaid. Mae gennym y fenter BBaChau i ddenu prentisiaethau yn y grŵp oedran 16-19:
https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/sites/skillsgateway/files/documents/rhaglen_cymehlliant_i_gyflogwyr_i_gynnal_prentisiaethau.pdf

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailystyried ei rhagdybiaeth bod gweithio yn y sectorau sylfaenol yn cyfateb i gapio sgiliau a chyrhaeddiad. Mae'r Pwyllgor yn galw am eglurder gan Lywodraeth Cymru ar yr hyfforddiant a chymorth sydd ar gael yn lle prentisiaethau Lefel 2, a sut mae'r cymwysterau sydd ar gael i gyflogeion yn y sectorau sylfaenol yn eu paratoi ar gyfer dysgu lefel uwch.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn cydweithio'n agos gyda'r is-adran cyflogadwyedd a sgiliau. Fel a grybwyllwyd mewn ymateb i Argymhelliad 6, cynhaliwyd symposiwm ym mis Gorffennaf ar y cyd â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i adnabod ac ystyried datrysiadau posibl i gamu ymlaen at swydd â chyflog uwch mewn sectorau â chyflog isel ac yn yr economi sylfaenol. Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn y broses o baratoi adroddiad ar y symposiwm a llunio argymhellion yn seiliedig ar hyn.

Mae gofyn inni gyfleu yr hyn yr ydym yn ei olygu wrth Raglen yr Economi Sylfaenol. Mae'r Economi Sylfaenol, yn ei chyfanrwydd, yn eithriadol o bellgyrhaeddol ac nid yw'n fwriad gennym gwmpasu maes mor eang.

Rydym wedi gwneud peth gwaith cwmpasu cychwynnol i ystyried opsiynau ar gyfer darparu Prentisiaethau Sylfaen ar lefel 2 mewn meysydd nad ydynt yn flaenoriaeth yn y dyfodol, gan y bydd y cyfeiriad polisi sy'n ymwneud â blaenoriaethu sgiliau lefel uwch yn gadael bwlch mawr yn y maes hwn. Ein nod yw cynyddu cyfleoedd bywyd unigolion drwy gynnig llwybr at gynnydd o lefel 2 i lefel 3 a'r tu hwnt. Dylai prentisiaethau ar lefel 2 gael eu hystyried yn gam ymlaen yn hytrach na phen y daith. Dylid eu hystyried yn ffordd o ddarparu dull hyfyw o symud i mewn i gyfleoedd gwaith sy'n rhoi mwy o foddhad a chyflog gwell er ei bod yn bosibl bod hyn yn perthyn y tu allan i brentisiaethau gan ddibynnu ar y sectorau penodol.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i ofyn i Fwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru archwilio sut y gall cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant gydweithio i wella canlyniadau gwerth am arian sy'n cynrychioli ansawdd da ac sydd fwyaf addas i'r cyflogwr, tra'n diogelu cludadwyedd cymwysterau

**Ymateb: Derbyn**

Mae Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru wedi cael gorchwyl i roi barn ynglŷn â rhinweddau, anfanteision, cyfleoedd posibl a chyfyngiadau'r dull newydd o ymdrin â Safonau Prentisiaethau yn Lloegr. Bydd hyn yn cael ei oleuo gan ymchwil annibynnol a fydd yn cael ei chomisiynu i geisio barn cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill am brofiadau cynnar gyda'r system yn Lloegr. Hefyd, wrth ystyried saernïaeth prentisiaethau yng Nghymru yn y dyfodol, bydd cludadwyedd cymwysterau'n ystyriaeth allweddol.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim.

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i'n hargymhelliad blaenorol yn y ddogfen *Prentisiaethau yng Nghymru*, Chwefror 2018, lle gwnaeth Llywodraeth Cymru dderbyn mewn egwyddor gyda'r galwad am gardiau bws neu drên rhatach i brentisiaid, yn dibynnu ar ganlyniadau ei ymgynghoriad ar "deithiau bws rhatach ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru". Gan fod crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn nodi "cefnogaeth gref iawn o blaid cynnwys pobl a oedd yn dilyn rhaglenni prentisiaeth cydnabyddedig (85%)", mae'r Pwyllgor yn ailadrodd ei argymhelliad i gael cardiau bws neu drên rhatach i brentisiaid

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r ymatebion i'w ymgynghoriad ynghylch gwella cynllun teithiau bws rhatach y Llywodraeth i bobl ifanc, "FyNgherdynTeithio". Mae'n gobeithio cyhoeddi ei benderfyniadau'n fuan.

Mae'r cynllun tocynnau trên rhatach wedi'i fwriadu i ategu'r cynllun teithiau bws, gan ddarparu teithiau ar drenau ar bedair rheilffordd gangen lle mae'r ddarpariaeth bysiau'n gymharol gyfyngedig ar hyn o bryd, gan amcanu yn anad dim at ddarparu mynediad at wasanaethau a hybu llesiant. Ceir rhai cyfyngiadau ar ddefnyddio'r cynllun cyfredol (e.e. mae'n weithredol dim ond am ran o'r flwyddyn ar ddwy o'r pedair rheilffordd) i sicrhau nad yw'n rhoi gormod o bwysau ar wasanaethau sydd eisoes yn brysur. Mae'r cyfyngiadau ar ddefnydd a'r cwmpas daearyddol cyfyngedig yn golygu nad yw estyniad ar y cynllun cyfredol yn addas fel modd i ddarparu mynediad drwy gydol y flwyddyn at waith a/neu addysg ar gyfer prentisiaid.

Byddai ehangu'r cynllun, gan gynyddu ei gwmpas daearyddol hefyd i gynnwys yr holl reilffyrdd yng Nghymru, yn dwyn costau ariannol sylweddol a gallai greu materion pellach o ran capasiti, yn enwedig pe bai'r un lefel o hawl yn cael ei darparu ar gyfer yr holl ddeiliaid tocynnau rhatach. Byddai mynediad at yr holl wasanaethau rheilffordd yng Nghymru, yn hytrach na dim ond y rhai a ddarperir gan ddarparwr rheilffordd Cymru a'r Gororau (h.y. GWR, Virgin a Crosscountry) yn golygu ei bod hefyd yn ofynnol ymgysylltu â masnachfreintiau rheilffyrdd a reolir gan Lywodraeth y DU a chyfrannu'n ariannol atynt.

Ar y sail hon, byddai ehangiad o'r fath i'r cynllun tocynnau trên rhatach yn ymateb drud ac wedi'i dargedu'n wael o'i gymharu â mentrau tocynnau penodol a allai gael eu rhoi ar waith gan weithredydd newydd gwasanaethau rheilffordd Cymru a'r Gororau, megis ei ymrwymiad i estyn mynediad at docynnau hanner prif i bobl ifanc 16 – 18 oed.

**Goblygiadau Ariannol:** Mae Trafnidiaeth Cymru wedi rhoi gwybod nad yw mewn sefyllfa i bwyso a mesur cost ehangu'r cynllun tocynnau trên yn hawdd.

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i ganfod ffyrdd arloesol o gefnogi prentisiaethau a dysgu arall yn y gweithlu ar gyfer nifer cynyddol o rolau.

**Ymateb: Derbyn**

**Datblygiad gydag Awdurdodau Lleol –** Rydym wedi sefydlu perthynas weithio dda gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac wedi cytuno ar nifer o gamau gweithredu cadarnhaol i gefnogi'r sector. Cyhoeddwyd arweiniad i Awdurdodau Lleol ar Brentisiaethau ym mis Medi 2018. Mae'r ddogfen yn nodi ein cyfeiriad polisi, gwybodaeth am yr ardoll brentisiaethau, a'r help a chefnogaeth sydd ar gael i awdurdodau. Mae hefyd yn cynnwys rhestr o fframweithiau sydd ar gael ac sy'n berthnasol i'r swyddogaethau yn y cynghorau er mwyn iddynt hwy ystyried sut orau i ddefnyddio prentisiaethau i gefnogi neu ddiwallu anghenion o ran cynllunio'r gweithlu. Rydym yn cynnal briff gwylio ar ddatblygiadau yn Lloegr ac rydym wedi cynnal cysylltiadau da â swyddogion yn yr Adran Addysg, sy'n profi materion tebyg i

ni. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Rheolwyr Adnoddau Dynol yn yr Awdurdodau Lleol i gefnogi'r sector hwn.

**Datblygiadau gydag Ysgolion –** Fel gydag Awdurdodau Lleol, rydym wedi paratoi arweiniad ar brentisiaethau sydd wedi'i fwriadu'n benodol ar gyfer ysgolion ac a gyhoeddwyd ym mis Medi 2018. Rydym wedi ymgynghori â Chymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) a'r Is-adran Polisi Ysgolion yn Llywodraeth Cymru, ynghylch cynnwys y ddogfen. Nod yr arweiniad yw codi ymwybyddiaeth ysgolion am brentisiaethau, yr ardoll a'r fframweithiau sydd ar gael iddynt ar hyn o bryd. Bydd gwaith cefnogi'n mynd rhagddo'n barhaus gyda'r sector hwn.

**Y GIG –** Cymeradwyodd Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru dri fframwaith yn ddiweddar – Cymorth Proffesiynau Perthynol i Iechyd – Lefel 4, Therapïau Seicolegol (Therapïau) – Lefelau 4/5 a Chydymaith Gwyddor Gofal Iechyd – Lefel 4. Mewn ymateb i'r galw, rydym eisoes wedi datblygu a chyhoeddi Lefel 3 Gwybodeg Iechyd ac rydym yn gweithio ar ddatblygiad i Lefel 4. Hefyd, rydym yn gweithio gyda'r Swyddfa Gwasanaethau Deintyddol a'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i ddatblygu cymwysterau newydd a fframwaith mwy cadarn ar gyfer Nyrsio Deintyddol. Mae Prifysgol Bangor wrthi ar hyn o bryd yn datblygu hyn. Mae gwaith ar y gweill hefyd i ddatblygu prentisiaethau lefel uwch (Lefelau 4/5) a fydd yn darparu cyfleoedd gwell ar gyfer datblygiad gyrfa.

Cyhoeddwyd Arweiniad newydd i Gyflogwyr ym mis Awst 2018. Mae'r arweiniad yn nodi'r rhaglen brentisiaethau sydd gennym yma yng Nghymru ac mae wedi'i fwriadu ar gyfer yr holl gyflogwyr.
https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/sites/skillsgateway/files/documents/Arweinlyfr%20Prentisiaethau%20i%20Gyflogwyr.pdf

**Goblygiadau Ariannol:** Dim.

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref i gynyddu eu hymdrechion i ddatrys y mater o ariannu prentisiaethau'r heddlu yng Nghymru, gan sicrhau bod yr heddluoedd yn cael gwybod yn llawn am unrhyw gynnydd o ran y trafodaethau.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Yn ystod 2018/2019, mae'r Heddluoedd ledled Cymru a Lloegr yn cyflwyno mentrau hyfforddi'r gweithlu newydd ac ehangach drwy brentisiaethau ar lefel 4-7, i wella'r gyfundrefn hyfforddi ar gyfer recriwtiaid mewn lifrai. Amcangyfrifir mai £1.1 miliwn yw'r gost sefydlu ar y cyfan ar gyfer yr heddluoedd yng Nghymru. Yn dilyn trafodaethau helaeth, mae'r Swyddfa Gartref wedi cytuno i ariannu costau hyfforddiant lefelau 4-7 (£600,000). Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd cyfraniad ar gyfer costau dechreuol (£400,000) a fydd yn cael ei fuddsoddi mewn gweithgareddau megis capasiti hyfforddwyr, deunyddiau, ac amrywiaeth o wariant cysylltiedig arall. Fodd bynnag trefniant unigol ar gyfer 2018/19 yw hwn ac ni fydd yn cael ei ailadrodd yn y dyfodol. Felly dim ond fel mesur byrdymor y gellir ystyried hwn a bydd angen trafodaethau pellach.

**Goblygiadau Ariannol:** Bydd angen trafodaethau ychwanegol i bennu costau parhaus.